**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU**
**29 TACHWEDD 2018**

Cofnodion cyfarfod Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Trwyddedu Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, yr Wyddgrug ddydd Iau, 29 Tachwedd 2018.

**YN BRESENNOL:**
**Y Cynghorydd Tony Sharps (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Adele Davies-Cooke a Mike Reece

**SWYDDOGION CYNGOR SIR Y FFLINT:**
Cyfreithiwr (Mr Tim Dillon), Swyddog Trwyddedu (James Lowe) ac Arweinydd Tîm - Gwasanaethau Democrataidd (Nicola Gittins)

**YMDDIHEURIADAU**
Dim.

**1. DATGAN CYSYLLTIAD**

Datganodd y Cynghorydd Reece gysylltiad personol gan ei fod yn adnabod un o ganolwyr a oedd wedi'u rhestru yn y cais. Cafodd gyngor cyfreithiol a nid oedd y cysylltiad yn rhagfarnus.

**2. DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 – YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD**

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol gan yr ystyriwyd eu bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig yn rhinwedd paragraffau 12 ac 13 Rhan 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

**3. CAIS AM DRWYDDED YRRU CERBYD HURIO PREIFAT/CERBYD HACNI (AR Y CYD)**

Croesawodd y Cadeirydd yr ymgeisydd i'r cyfarfod. Cyflwynodd aelodau'r panel ac eglurodd y drefn ar gyfer y gwrandawiad, gan gynnwys sut y byddai'r cais yn cael ei benderfynu arno.

Cyflwynodd yr Arweinydd Tîm Trwyddedu yr adroddiad i ystyried cais ar gyfer Trwydded yrru Cerbyd Hurio Preifat/Cerbyd Hacni (ar y cyd). Y rheswm bod y cais gerbron yr Is-bwyllgor oedd oherwydd troseddu mynych er bod cyfnod o dros 10 mlynedd ers yr collfarn diwethaf.

Gofynnodd y Cadeirydd ac aelodau'r Is-bwyllgor gwestiynau i'r ymgeisydd, yn arbennig mewn perthynas â chollfarnau penodol, ac ymatebodd yr ymgeisydd. Hefyd gofynnodd y Cyfreithiwr gwestiynau penodol mewn perthynas â phob collfarn.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr ymgeisydd i roi sylwadau. Rhoddodd fanylion ar y cefndir a arweiniodd at y troseddau sydd wedi digwydd, gan egluro ei bod yn unigolyn gwbl wahanol yn ystod y cyfnod 2003 a 2006 pan cyflawnwyd

y troseddau.  Roedd wedi symud o'r ardal, ac wedi cael cwmni newydd a gwneud bywyd newydd iddi ei hun ac wedi cael dau fab, sydd yn oedran ysgol bellach. Roedd eisiau gallu darparu iddynt, a roedd hyn yn gyfle da i weithio oriau hyblyg a fyddai'n gweddu ei bywyd cartref gyda theulu.   Rhoddodd fanylion am y cyfnod anodd hwn yn ei bywyd a'r rhesymau yr oedd yn teimlo ei bod yn cymryd cyffuriau.

Dywedodd yr ymgeisydd ei bod yn unigolyn cymwys ac addas.

Pan oedd y Cadeirydd yn fodlon fod yr holl gwestiynau perthnasol wedi eu gofyn, gwnaeth gais i'r ymgeisydd a'r Arweinydd Tîm Trwyddedu adael y cyfarfod tra bod yr Is-bwyllgor yn dod i benderfyniad.

**Penderfyniad**

Wrth benderfynu ar y cais, roedd yr is-bwyllgor wedi ystyried y sylwadau a wnaethpwyd a bod troseddu mynych wedi digwydd, gan nodi nad oedd unrhyw drosedd wedi digwydd ers dros 12 mlynedd.  Cytunodd yr Is-Bwyllgor fod yr ymgeisydd yn unigolyn addas a phriodol i gael Trwydded Yrru Cerbyd Hurio Preifat / Cerbyd Hacni (ar y cyd).

Gwahoddwyd y Swyddog Trwyddedu a'r ymgeisydd yn ôl er mwyn ailgynnull y cyfarfod ac i'w hysbysu o'u penderfyniad.

**PENDERFYNWYD:**

Bod yr ymgeisydd yn unigolyn cymwys ac addas i gynnal Trwydded Yrru Cerbyd Hurio Preifat/Cerbyd Hacni o dan y Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a chaniatáu'r Drwydded.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 a.m. a daeth i ben am 11.00 a.m.)